



**Dosbarthu  
Trydan**

# **Llyfryn ymgynggori cyn ymgeisio**

Tachwedd 2025

---

## **Cysylltu Fferm Wynt Ogwr Uchaf**

**Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ynghylch ymgynghoriad statudol Dosbarthu Trydan National Grid ar gysylltiad grid Ogwr Uchaf.**




**nationalgrid**

# Ynghylch Dosbarthu Trydan National Grid (NGED)

Mae'r Grid Cenedlaethol wrth wraidd system drydan Prydain, gan gysylltu miliynau o bobl â'r ynni maen nhw'n ei ddefnyddio bob dydd.

Mae'r Grid Cenedlaethol yn gweithredu'r rhwydweithiau Trawsyrru a Dosbarthu (lleol) yn Ne Cymru. Mae'r diagram isod yn dangos ble mae'r ddau yn gweithredu.



## Rôl Dosbarthu Trydan National Grid:

Yn NGED, nid ydym yn cynhyrchu trydan ein hunain. Rydym yn cymryd trydan o'r rhwydwaith trawsyrru foltedd uchel ac yn uniongyrchol o gynhyrchu ar raddfa fach, ac yn ei ddosbarthu i gartrefi a busnesau.

Dosbarthu Trydan National Grid yw gweithredwr y rhwydwaith dosbarthu ar gyfer De Cymru, Canolbarth Lloegr, a De-orllewin Lloegr – rydym yn darparu cyflenwad trydan diogel a dibynadwy i dros 20 miliwn o bobl.

Bob tro rydych chi'n plygio'ch ffôn i mewn, neu'n troi switsh ymlaen, rydyn ni'n eich cysylltu â'r trydan sydd ei angen arnoch chi. Rydym yn gweithio gyda'n cwsmeriaid, rheoleiddwyr, llunwyr polisi cenedlaethol a lleol a rhanddeiliaid i ddeall y gofynion yn y dyfodol ar y system drydan leol, fel ein bod yn sicrhau bod y rhwydwaith yn ddibynadwy ac yn addas ar gyfer y dyfodol.


## NGED yng Nghymru




Yn gwasanaethu **2 filiwn** o gwsmeriaid



**36,000km** o rwydwaith



**40,000** o drawsnewidyddion



Buddsoddi **£1.2 biliwn** rhwng 2023 a 2028

Dosbarthu Trydan National Grid yw gweithredwr dosbarthu mwyaf y DU gyda dros 20 miliwn o gwsmeriaid ledled De Cymru, Canolbarth Lloegr a De-orllewin Lloegr.

Yn Ne Cymru rydym yn gweithredu tua 36,000km o rwydwaith, gan wasanaethu 2 filiwn o gwsmeriaid a chyda dros 1,000 o gyflogeion.

Rydym yn buddsoddi £1.2 biliwn rhwng 2023 a 2028 ac yn bwriadu cysylltu 1.8 Gigawat o gapasiti gwynt yn Ne Cymru.

Mae'r ffordd rydym yn defnyddio'r rhwydwaith yn newid yn gyflym, gyda'r galw am drydan i ddyblu erbyn 2050. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn unig, rydym wedi gweld cynnydd o 900% mewn ceisiadau am gysylltiad.

Rydym yn buddsoddi mwy i gynnal, atgyfnerthu ac uwchraddio'r rhwydwaith dosbarthu fel y gallwn gysylltu'r cynnydd cyflymach mewn technolegau carbon isel rydym yn ei weld.



# Cynnwys

## Ymgynghoriad

## Fferm Wynt Ogwr Uchaf

## Ein cynigion

## Diweddariadau ar y cynnig

## Seilwaith cysylltiedig

## Llinellau uwchddaearyl

## Ceblau tanddaearol

## Ystyriaethau amgylcheddol

## Eich cwestiynau wedi'u hateb

5

6

8

9

12

14

16

18

22

# Ymgynghoriad

Mae Cysylltiad Grid Ogwr Uchaf yn bodloni'r meini prawf i gael ei ddsbarthu fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Bydd y cysylltiad grid hwn yn cysylltu Fferm Wynt Ogwr Uchaf â'r grid.

Mae'r math hwn o brosiect yn gofyn am fath arbennig o gais cynllunio a gyflwynir i Benderfyniadau Cynllunio Amgylchedd Cymru (PEDW), rhan o Lywodraeth Cymru, ac a gymeradwyir ganddo.

Bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) yn darparu adroddiad effaith leol gyda'u barn ar y cais, ond ni fyddant yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol. Gan y bydd y llwybr arfaethedig yn cael ei osod o dan drac yn agos at Glawdd Mawr, byddwn hefyd yn gwneud cais am Ganiatâd Heneb Gofrestredig.

Mae ymgynghori yn rhan statudol o'r broses DNS, ac mae'n galluogi pawb i wneud sylwadau ar ein cynigion. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal ymgynghoriad statudol ar y cais cynllunio drafft ar gyfer Cysylltiad Grid Ogwr Uchaf.

Mae'r llyfryn ymgynghori hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am ddogfennau'r cais drafft. Mae dogfennau'r cais drafft hefyd i'w gweld yn llawn ar wefan y prosiect:

[nationalgrid.co.uk/upper-ogmore](http://nationalgrid.co.uk/upper-ogmore)

**Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg o 12 Tachwedd 2025 tan 5 Ionawr 2026.**

Mae manylion cyswilt i'w gweld ar dudalen olaf y ddogfen hon.

## Amserlen y Prosiect



**Mehefin a Gorffennaf 2025**  
Ymgynghoriad Anffurfiol



**Haf 2025**  
Cwblhau Cais  
Cynllunio Drafft



**Gaeaf 2025**  
Ymgynghoriad Cyn  
Ymgeisio Statudol



**Dechrau 2026**  
Adolygu adborth a chwblhau'r  
Cais Cynllunio



**Dechrau 2026**  
Cyflwyno'r Cais Cynllunio



**Haf 2026**  
Archwiliad disgwylledig gan PEDW  
(yn amodol ar amserlenni PEDW)



**Gaeaf 2026**  
Penderfyniad disgwylledig (yn  
amodol ar amserlenni PEDW)



**Haf 2028**  
Dechrau disgwylledig y  
gwaith adeiladu



**Gwanwyn 2029**  
Diwedd y gwaith adeiladu

# Fferm Wynt Ogwr Uchaf

## Cymeradwywyd Fferm Wynt Ogwr Uchaf gan PEDW fel DNS ym mis Medi 2022.

Bydd y fferm wynt yn cael ei hadeiladu ar draws pen uchaf dyffrynnoedd Garw ac Ogwr o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr. Unwaith y bydd y fferm wynt wedi'i hadeiladu, gallai gynhyrchu hyd at 25MW. Bydd wedi'i lleoli'n union wrth ymyl Parc Ynni Adnewyddadwy Llynfi Afan presennol.

Mae'r Grid Cenedlaethol yn gyfrifol am gysylltu'r fferm wynt â'r grid ac yn galluogi allforio trydan i gwsmeriaid. Nawr rydym yn ymgynghori ar ein cynlluniau i'w gysylltu â'r rhwydwaith grid ehangach.




Am ragor o wybodaeth am y fferm wynt, ewch i wefan Fferm Wynt Ogwr Uchaf: [upperogmore-windfarm.co.uk](http://upperogmore-windfarm.co.uk)

## Mae Cynhyrchu Trydan yn newid

Mae system ynni'r DU yn newid – yn dod yn fwy aml-gyfeiriadol, ac yn fwy datganoledig. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Grid Cenedlaethol, fel gweithredwr rhwydwaith, gysylltu ffynonellau cynhyrchu pŵer ar raddfa lai sydd wedi'u gwasgaru ledled y wlad.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni adeiladu ac uwchraddio ein rhwydwaith, weithiau mewn lleoliadau newydd i gysylltu'r ffynonellau hyn.



# Ein cynigion

## Mae cysylltu'r fferm wynt â'r grid mewn dwy ran:

### Cysylltiad newydd (testun yr ymgynghoriad hwn)

I gysylltu'r fferm wynt newydd â'r grid, gosodir 9 cilomedr (5.5 milltir) o gebl trydan 66kV newydd.

Bydd hyn yn cynnwys 4.1km (2.5 milltir) o linellau pŵer uwchben a 4.9km (3 milltir) o geblau tanddaearol. Er nad yw rhan ddwyreiniol y llinell yn rhedeg trwy unrhyw gymunedau, byddai'r rhan orllewinol yn rhedeg ychydig i'r de o Groeserw a thrwy'r briffordd yng Nghaerau.

Bydd y llwybr yn dechrau ac yn gorffen yn yr ardal a gwmpesir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a bydd rhannau hefyd yn mynd trwy ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot neu'n weladwy o'r ardal honno.

- ◆ Mae'r llwybr yn dechrau i'r gorllewin o'r A4063 ger Caerau, fel Llinell Uwchben (OHL) am oddeutu 1.1km (hanner milltir).
- ◆ Wrth i'r llwybr gyrraedd Caerau, mae'r llwybr yn trawsnewid yn Gebl Tanddaearol (UGC) gan ddilyn y rhwydwaith priffyrdd presennol am tua 1.7km (1 filltir) i'r gogledd.
- ◆ Ychydig ar ôl Is-orsaf Caerau, mae'r llinell yn dychwelyd i OHL am tua 3km (2 filltir) i'r dwyrain.
- ◆ I'r gorllewin o Glawdd Mawr, mae'r llwybr yn trawsnewid yn ôl i gebl tanddaearol ac yn parhau i'r dwyrain tuag at yr is-orsaf yn fferm wynt Ogwr Uchaf am 3.2km (2 filltir).
- ◆ Yn ystod y rhan olaf hon o'r llwybr byddai'n teithio'n rhannol drwy dir comin Mynydd Llangeinor.

### Seilwaith presennol

Cynigir y cysylltiad â'r grid mewn is-orsaf bresennol yn y Pîl, tua 15km (9 milltir) o'r safle.

I gyrraedd yr is-orsaf hon, byddai'r cysylltiad grid arfaethedig ag Ogwr Uchaf yn defnyddio darn presennol o rwydwaith ger coed Craig Yr Aber a'r Cysylltiad Grid Foel Trawsant arfaethedig gan Pennant Walters. Cyflwynwyd y cysylltiad grid Foel Trawsant i PEDW yn yr Haf. (DNS CAS-02505-N3T6M4)

I gysylltu â Chysylltiad Grid Foel Trawsant, mae angen i linell Ogwr Uchaf deithio tua'r gorllewin o'r safle tuag at bwynt cysylltu i'r gorllewin o Dyffryn a Nantffyllon.

Mae'r map ar dudalennau 10 ac 11 yn dangos y llwybr grid arfaethedig yn fanylach.

**I gael rhagor o wybodaeth am Gysylltiad Grid Foel Trawsant ewch i'r wefan yn: [ftgrid.co.uk](http://ftgrid.co.uk)**

neu medrwyd weld y cais ar borth cynllunio PEDW.

(DNS CAS-02505-N3T6M4)



## Diweddariadau ar y cynnig

Fel y gwyddoch efallai eisoes, cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol cychwynnol yn yr haf. Ers hynny rydym wedi adolygu'r adborth a dderbyniwyd a'r data arolwg a gasglwyd, gan ganiatáu i ni wneud rhai newidiadau nodedig i'r cynnig llwybr cysylltiad grid.


Ers hynny, rydym wedi gwneud newidiadau i lwybr y cysylltiad grid. Mae'r rhain wedi cael eu llywio gan arolygon parhaus, ac ymatebion i'r ymgynghoriad.

### Mae'r newidiadau canlynol wedi'u gwneud:

- 1 Mae'r newid o geblau tanddaearol i linellau uwchben wedi'i symud i ychydig i'r dwyrain o is-orsaf Caerau, yn hytrach nag i'r gogledd ohoni (I'r gorllewin o rif 2, nad yw'n cael ei ddangos ar y map uchod).
- 2 Mae'r newid o linellau uwchben i geblau tanddaearol wedi'i symud i ochr orllewinol Clawdd Mawr ger Mynydd Caerau, gyda'r llinell wedi'i thanddaearu trwy draciau presennol ar gyfer Parc Ynni Adnewyddadwy Llynfi Afan.
- 3 Ar ddiwedd y llinell byddai'r llwybr yn defnyddio aliniad newydd sy'n dilyn llwybrau i'w hadeiladu fel rhan o Fferm Wynt Ogwr Uchaf. Byddai hyn yn cynnwys darn byr drwy gomin Mynydd Llangeinor.



Llwybr Cysylltu Arfaethedig Ogwr Uchaf



- Cysylltiad Grid Foel Trawsant
- Aliniad tanddaearol
- Aliniad uwchben
- Fferm Wynt Ogwr Uchaf

**I'r Pîl**  
↓

# Seilwaith Cysylltiedig



## Is-orsaf


Mae is-orsafoedd yn chwarae rhan hanfodol wrth drosi trydan yn folteddau gwahanol. Mae eu seilwaith yn cynnwys trawsnewidyddion, torwyr cylched, switshis datgysylltu, ac offer arall sydd ei angen ar gyfer trosglwyddo pŵer yn ddiogel ar draws y rhanbarth a'r wlad.

### Mae dau ddsbarth o is-orsafoedd:

1. 275kV ac uwch sy'n ffurfio rhan o'r rhwydwaith trawsyrru.
2. 132kV ac is sy'n ffurfio rhan o'r rhwydwaith dosbarthu.

Byddai is-orsaf yn cael ei hadeiladu fel rhan o Fferm Wynt Ogwr Uchaf, a byddai pŵer o'r fferm wynt yn cael ei drosglwyddo i is-orsaf arall yn y Pŵl.

### Nid oes is-orsaf wedi'i chynnwys yn y cynnig hwn.



## Trawsnewidydd

Mae trawsnewidyddion yn caniatáu i ni gludo pŵer ar draws y grid, ac maent yn ffurfio rhan fawr o'r is-orsafoedd a ddefnyddir ar y naill ben a'r llall o Gysylltiad Grid Ogwr Uchaf.

Mae trawsnewidyddion yn sicrhau bod foltedd mewn llinell grid yn addas ar gyfer y lle y mae'n cael ei drawsyrru iddo.

Gellir eu defnyddio naill ai i gynyddu foltedd trydan i'w drawsyrru ar draws y wlad neu i leihau'r foltedd i'w ddsbarthu i gartrefi a busnesau.



## Folt

Wrth gyfeirio at gysylltiadau grid, po uchaf yw'r foltedd ar gyfer y llinell, yr uchaf yw'r capasiti, a'r mwyaf o bŵer y gall ei gludo.

Foltedd isel yw'r math o bŵer rydyn ni'n ei ddefnyddio yn ein cartrefi. Defnyddir foltedd canolig ar gyfer dosbarthu o amgylch ein trefi i'n cartrefi a defnyddir foltedd uchel ar gyfer anfon pŵer dros bellteroedd hir.

Byddai cysylltiad grid Ogwr Uchaf yn trosglwyddo pŵer ar 66kV (66 mil folt), sy'n cael ei ddsbarthu fel foltedd uchel.



## Wat

Mae wat yn fesur o bŵer, ac mae 1 biliwn wat mewn 1 Gigawat (GW).

Mae 1 Gigawat awr (GWh) yn uned o ynni, sy'n cyfateb i bweru un filiwn o gartrefi yn y DU am un awr.

Byddai Fferm Wynt Ogwr Uchaf yn cynhyrchu 25 megawat o ynni, sy'n hafal i 25 miliwn wat.



## Tyrau

Mae'r Tŵr yno i gynnal dargludyddion trydan foltedd uchel (mae'r dargludyddion a'r llinellau'n cludo'r trydan)


### Nid yw tyrau wedi'u cynnwys fel rhan o'r cynnig hyn.

Fel arfer mae tyrau wedi'u gwneud o ddur ac mae ganddyn nhw batrwm delt – maen nhw'n edrych fel peilonau, a ddefnyddir ar y Rhwydwaith Trawsyrru, ond nid ydyn nhw mor dal.

# Llinellau Uwchben

Mae llinellau uwchben (y cyfeirir atynt fel OHL) yn ffordd gyffredin o drawsyrro pŵer ledled y DU. Mae ceblau trawsyrro trydan yn cael eu hongian yn yr awyr naill ai ar ben polion pren neu o dyrau dur.



Mae yna lawer o wahanol math o bolion uwchben o beilonau T mawr, i dyrau dellt dur, polion H, a pholion pren sengl.



## Polion H

Mae Polion-H yn cynnwys dau bolyn pren hyd at 15 metr o uchder wedi'u cysylltu gan groesfraich â chymorth strwythurol.

Fel arfer 11-15m




Dim ond polion H pren fyddai'r cynllun hwn yn eu defnyddio ar gyfer y cysylltiad uwchben, heb fod angen adeiladu peilonau dur.



## Gosod y llinell uwchben


Byddai gosod polion yn broses syml, a rhagwelir y byddai blociau pren yn cael eu gosod yn y ddaear i ddarparu cymorth strwythurol.

Er bod y llinell wedi'i bwriadu i fod mor syth â phosibl, mae yna bwyntiau lle gall fod angen i'r llinell newid cyfeiriad, er mwyn osgoi nodweddion amgylcheddol, fel coed. Mewn mannau o wriad, bydd polion ongl yn cael eu defnyddio. Mae'n debygol mai strwythurau polyn-H fydd y rhain, gyda chynhalwyr cebl i ddarparu sefydlogrwydd ychwanegol.



## Pennau Terfynellau

Ar ddechrau neu ddiwedd pob adran o OHL, bydd pen terfynell, mae hyn yn cynnwys dwy set o bolion-H a fydd wedi'u lleoli ochr yn ochr. Bydd y math hwn o bolyn hefyd yn cael ei ddefnyddio yn y pwynt cysylltu â Chysylltiad Grid Foel Trawsant.



# Ceblau Tanddaearol

Bydd Ceblau Tanddaearol (a elwir yn gyffredin yn UGC) hefyd yn ffurfio rhan o Gysylltiad Grid Fferm Wynt Ogwr Uchaf. Bydd y ceblau'n cael eu gosod mewn dau dirwedd, o dan y traciau a'r priffyrdd presennol, a thrwy dir agored wrth y fferm wynt.

Bydd gwaith priffordd i osod y llinellau yn cymryd tua phump i chwe mis i'w gwblhau.



## Mae sawl ffordd bosibl o osod y ceblau tanddaearol.


1

### Yn gorwedd mewn ffos

Wrth osod ceblau o dan y ddaear gellir defnyddio dull torri agored. Gosodir ceblau yn uniongyrchol yn y ffos a gloddiwyd ar ddyfnder o hyd at 1.5 metr. Ar wyneb y cloddiad bydd lled yr agorfa rhwng 0.5 metr ac 1.5 metr.

Gosodir ceblau ar waelod y ffos a bydd yr ardal o gwmpas yn cael ei llenwi â thywod. Mae'r ffos sy'n weddill yn cael ei llenwi â llwch cerrig ac yn cael ei hail-wynebu yn unol â'r deunyddiau presennol.

CYLCHED SENGL




2

### Gosod pibell

Fel arall, gallem osod pibelli yn y ffosydd agored yn unol â'r dull blaenorol. Gellir gosod y pibellau cyn gosod y cebl, a all gyflymu'r gwaith ar y safle. Byddai'r pibellau'n cael eu gosod mewn adrannau 250m gyda'r adrannau cebl yn cael eu cysylltu â'i gilydd fel y dangosir yn y diagram isod.

GOLYGFA O UWCHBEN



Gweler tudalen 19 am fanylion ar reoli traffig.

Mae'n bwysig, ar yr wyneb, na fydd unrhyw newidiadau hirdymor i'r tir.

Oherwydd cau'r tir ar unwaith ar ôl y gosodiad, gall y tir ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol mewn cyfnod byr yn unig.



# Ystyriaethau Amgylcheddol

Fel rhan o'n cais, rydym wedi paratoi Datganiad Amgylcheddol manwl sy'n archwilio amrywiol effeithiau o'r cynllun a sut y gellid lliniaru'r rhain.

Ar wefan yr ymgynghoriad gallwch weld y datganiad Amgylcheddol llawn (ochr yn ochr â'r cais cynllunio llawn), yn ogystal â'r crynodeb annhechnegol. Mae'r tudalennau canlynol yn darparu gwybodaeth am feysydd allweddol y Datganiad Amgylcheddol.



## Tirwedd

Mae effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol ar y dirwedd leol yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu'r cynigion hyn. Rydym wedi dylunio'r cynigion i gyfyngu ar effeithiau ar yr amgylchedd a'r dirwedd leol, fel coed.

Byddai'r llwybr arfaethedig yn rhedeg ar draws tir sydd wedi'i ddsbarthu ar hyn o bryd fel Gradd 4 a 5, gyda rhai rhannau o dir trefol a thir anamaethyddol.

Mae'r defnydd o bolion H pren yn gydnaws â llinellau uwchben tebyg sydd eisoes yn yr ardal a bydd yn lleihau'r effeithiau gweledol ar y dirwedd gyfagos.



## Yr Amgylchedd Hanesyddol

Wrth baratoi'r cais cynllunio drafft hwn rydym wedi bod yn siarad â rhanddeiliaid treftadaeth perthnasol ac wedi cynnal asesiadau cefndir archeolegol a hanesyddol helaeth o'r llwybr grid arfaethedig a'r ardal gyfagos.

Mae ein trafodaethau gyda Cadw wedi nodi Clawdd Mawr fel ased hanesyddol, yr oedd yr hen llwybr arfaethedig yn ei groesi gan ddefnyddio llinellau uwchben.

O ganlyniad, rydym wedi newid llwybr y grid i roi ceblau tanddaearol trwy drac presennol. Bydd hyn yn lleihau effeithiau gweledol a newidiadau i leoliad yr ased hanesyddol hwn.



## Ecoleg

Byddwn yn sicrhau nad oes unrhyw golled net o gynefinoedd yn ystod adeiladu'r llinell.

Rydym wedi cynnal arolygon ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau yn edrych ar yr effeithiau posibl y gallai'r prosiect eu cael. Mae'r rhain wedi cynnwys Madfallod Cribog Mawr, Ystlumod, Llygod y Dŵr, Ysgyfarnogod a rhywogaethau o wyfnod a gloynnod byw sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn lleol.

Mae yna lawer o fesurau y gallwn eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau posibl ar fywyd gwylt yn yr ardal, a lleihau effeithiau ar gynefinoedd o'r llinell grid.

Bydd effeithiau posibl o rannau uwchben y llinell yn gyfyngedig i ôl troed polion y llinell uwchben.



## Traffig

Bydd rhannau o'r ceblau tanddaearol yn cael eu gosod o dan y briffordd bresennol ar yr A4063 trwy Gaerau. Ni ragwelir y bydd angen cau unrhyw ffordd yn llwyr; fodd bynnag, mae natur y gwaith yn golygu y bydd effeithiau ar y rhwydwaith ffordd.

Byddwn yn cytuno ar fesurau rheoli traffig priodol gyda'r awdurdod priffyrdd lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr). Bydd manylion y gwaith hwn i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu terfynol a disgwylir iddo gymryd hyd at 6 mis i'w gwblhau.

Byddai polion H ar gyfer y llwybr yn cael eu danfon drwy'r M4 a Ffordd Blaenau'r Cymoedd, cyn teithio i gaeadle adeiladu wedi'i leoli yn Fferm Wynt Ogwr Uchaf ar yr A4107. Yna byddai'r polion yn cael eu cludo o'r caeagle adeiladu i weddill y llinell yn ôl yr angen. Bydd hyn yn arwain at effeithiau lleiaf posibl ar weddill y rhwydwaith ffordd.



# Ystyriaethau Amgylcheddol




## Adareg

Rydym wedi cynnal Arolygon Adar manwl ar hyd y llwybr a pharth clustogi o'i gwmpas. Mae'r arolygon wedi cynnwys adar ysglyfaethus sy'n bridio, manau gwyllo a throellwyr nos. Byddwn yn cynnal arolygon clwydo adar ysglyfaethus yn y gaeaf rhwng nawr a mis Chwefror 2026.

Byddai'r gwaith adeiladu arfaethedig o'r llinell wedi'i drefnu i ddigwydd y tu allan i'r prif dymor bridio cymaint ag y bo modd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai na fydd hyn yn bosibl a byddai arwyddion "dim aflonyddwch" a chlustogfeydd sain yn cael eu hystyried i osgoi effeithiau ar adar sy'n bridio.

Mae dulliau adeiladu hefyd wedi'u cynllunio i ddigwydd gan ddefnyddio'r holl fesurau angenrheidiol ac ymarferol i leihau'r sŵn, y dirgryniad a'r aflonyddwch gweledol i adar.



## Hydroleg

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o arolygon i ddeall amgylchedd dŵr a chyflwr daear presennol y llwybr. Rydym hefyd wedi asesu pa effeithiau y gallai'r llinell grid arfaethedig eu cael ar y rhain.

Er mwyn cyfyngu ar yr effaith ar hydroleg y safle, byddwn yn sicrhau bod graddiant y tir rydym yn gweithio arno mor fas â phosibl i gadw llif silt i'r lleiafswm. Bydd unrhyw ddŵr ffo yn ystod y gwaith adeiladu yn cael ei ddal a'i waredu'n ddiogel i'w atal rhag mynd i mewn i gyrsiau dŵr naturiol.

Yn ogystal, byddwn yn cynnal monitro ansawdd dŵr yn rheolaidd ac archwiliad gweledol o gyrsiau dŵr ger y gwaith i sicrhau nad oes unrhyw newidiadau yn y dŵr.



## Amleddau Electromagnetig

Mae Amleddau Trydanol a Magnetig (EMFs) yn deillio o gynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu a defnyddio trydan. Mae pob llinell bŵer uwchben a thanddaearol yn cynhyrchu EMFs, fel y mae unrhyw offer sy'n defnyddio trydan.

Mae EMFs ar eu huchaf yn uniongyrchol o dan linellau uwchben ac yn uniongyrchol uwchben linellau tanddaearol, gyda lefelau'n gostwng yn gyflym gyda'r pellter i ochr llinell.

Gyda foltedd isel Cysylltiad Grid Ogwr Uchaf arfaethedig, ni fydd unrhyw effeithiau sylweddol yn ymwneud ag EMFs. Byddai'r EMFs mwyaf y gellid eu canfod yn uniongyrchol o dan linell uwchben yn cyfateb i deledu cartref, peiriant golchi dillad, neu ficrodon.

Nid oes unrhyw gysylltiadau profedig rhwng amleddau electromagnetig ac unrhyw effeithiau ar iechyd.

## Cloddio Glo

Er ein bod wedi gwneud cymaint o ymchwil â phosibl, fel gydag unrhyw brosiect o'r fath, mae risg fach y bydd cofnodion mwyngloddiau heb eu cofnodi yn bresennol ar y safle. Rydym wedi cynnwys hyn yn ein cofrestrau risg.

Mae gweithfeydd mwyngloddio dwfn wedi'u cofnodi islaw'r safle ar ddyfnderoedd rhwng 31 a 783 metr (hanner milltir) islaw lefel y ddaear. Ystyrir bod y rhain yn ddigon dwfn fel na fydd unrhyw effeithiau ar y datblygiad arfaethedig.

Os canfyddir unrhyw nodweddion nad ydym eisoes wedi'u mapio yn ystod gwaith ar y safle, bydd y rhain yn destun asesiad ac ymchwiliad pellach gan arbenigwyr.

Os oes angen, cymerir camau ychwanegol i sicrhau nad yw hyn yn effeithio ar y datblygiad arfaethedig.

**Gallwch weld y cais cynllunio llawn ar ein gwefan:**  
[nationalgrid.co.uk/upper-ogmore](https://nationalgrid.co.uk/upper-ogmore)

# Eich cwestiynau wedi'u hateb

## Pa effeithiau fydd ar y gymuned leol?

Fel rhan o'r gwaith adeiladu bydd effeithiau ar y ffyrdd rhwng Croeserw a Dyffryn wrth i ni adeiladu rhan danddaearol y llinell. Dim ond ar un ochr i'r ffordd y bydd angen i ni weithio ac felly gyda goleuadau traffig byddwn yn gallu sicrhau y gall pawb gyrraedd lle mae angen iddynt fod.

## A fydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio'n lleol?

Bydd pŵer o'r fferm wynt yn cael ei allforio i Is-orsaf Pyle, ac oddi yno bydd yn cael ei ddefnyddio lle bynnag y bydd ei angen.

## Beth sydd wedi eich atal rhag cysylltu ag is-orsaf bresennol Caerau?

Nid oes gan is-orsaf bresennol Caerau y capasiti i ddarparu ar gyfer y cysylltiad grid ag Ogwr Uchaf. Pe baem yn cysylltu'r prosiect hwn ag is-orsaf Caerau, byddai'r gwaith yn llawer mwy helaeth ac aflonyddol. Yn ogystal, drwy adeiladu'r cysylltiad grid newydd hwn, rydym yn diogelu capasiti'r rhwydwaith ar gyfer y dyfodol.

## Ble alla i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am fferm wynt Ogwr Uchaf?

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, sy'n cael ei gyflawni gan Marubeni, ar gael yn: [upperogmore-windfarm.co.uk](http://upperogmore-windfarm.co.uk)

## Ble alla i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am Gysylltiad Grid Foel Trawsant?

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, sy'n cael ei gyflawni gan Pennant Walters, ar gael yn: [ftgrid.co.uk](http://ftgrid.co.uk)

## Sut bydd y cysylltiad grid yn cael ei gyflwyno?

Ein cynnig cysylltiad grid yw llinell 66kv yn rhedeg am tua 9 km (5.5 milltir), gyda 4.1km (2.5 milltir) uwchben, a 4.9km (3 milltir) o dan y ddaear.

## Pa seilwaith sydd ei angen ar gyfer y llinellau uwchben?

Dim ond polion H pren fyddai'r cynllun hwn yn eu defnyddio ar gyfer y cysylltiad uwchben, heb fod angen adeiladu peilonau dur.

## Pam nad yw'r holl linell yn cael ei gosod o dan y ddaear?

Fel rhan o ddatblygiad y cynllun hwn rydym wedi gwerthuso'r holl opsiynau ar gyfer y llinell, gan gynnwys dyletswyddau rheoleiddio, daearyddiaeth a'r amgylchedd lleol, cost, a barn rhanddeiliaid. Ymhelaethir ar rai o'r rhain isod:

### Effeithiau tir

Gall tanddaearu amharu ar gynefinoedd sensitif neu safleoedd archeolegol a gall olygu bod angen defnydd tir ac adeiladu helaeth, a all hefyd greu mwy o effaith a bod yn fwy heriol a chostus.

### Cynnal a Chadw

Gall cynnal a chadw ac atgyweirio ceblau tanddaearol fod yn fwy cymhleth a chymryd mwy o amser o'i gymharu â cheblau uwchben.

### Cost

Yn gyffredinol mae ceblau tanddaearol yn ddrutach i'w gosod a'u cynnal o'i gymharu â cheblau uwchben, yn enwedig ar gyfer ceblau foltedd uchel.

Rydym hefyd yn ystyried barn a gofynion ein cwsmeriaid yn ogystal â rhanddeiliaid a'r gymuned.

## A fydd yn rhaid i chi gau unrhyw ffyrdd i osod ceblau tanddaearol?

Bydd rhannau o'r ceblau tanddaearol yn cael eu gosod o dan y briffordd bresennol ar yr A4063 trwy Gaerau. Ni ragwelir y bydd angen cau unrhyw ffyrdd yn llwyr; fodd bynnag, mae natur y gwaith yn golygu y bydd effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd.

Byddwn yn cytuno ar fesurau rheoli traffig priodol gyda'r awdurdod priffyrdd lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr). Bydd manylion y gwaith hwn i'w gweld yn y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu terfynol a disgwylir iddo gymryd hyd at 6 mis i'w gwblhau.

# Dosbarthu Trydan

nationalgrid

## Cysylltu â ni

Byddem yn croesawu eich adborth i'n hymgyngoriad. Mae yna lawer o ffyrdd i gysylltu â ni ac anfon eich adborth atom cyn diwedd yr ymgynghoriad.



Cwblhewch y ffurflen adborth drwy'r wefan neu ar bapur, sydd ar gael yn ein digwyddiadau. Gallwch hefyd ddod o hyd i'n cais cynllunio drafft llawn ar y wefan:

[nationalgrid.co.uk/upper-ogmore](https://nationalgrid.co.uk/upper-ogmore)

**Mae'r ymgynghoriad  
ar agor tan 5 Ionawr  
2026 a byddem wrth  
ein bodd yn clywed  
eich barn.**

Gallwch hefyd gyflwyno adborth drwy unrhyw un o'r dulliau cysylltu a amlinellir isod.

### E-bostio ni:

[nged.upperogmore@nationalgrid.co.uk](mailto:nged.upperogmore@nationalgrid.co.uk)

### Ffonio ni:

01656 334319

### Ysgrifennu atom ni:

Freepost GRASSHOPPER CONSULT

(nid oes angen stamp na chyfeiriad pellach)

Bydd y manylion cyswllt yn eich rhoi mewn cysylltiad â Grasshopper Communications sy'n rheoli'r ymgynghoriad gyda'r tîm yn y Grid Cenedlaethol.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn cwblhau ein cynigion ac yn cyflwyno ein cais i PEDW.

National Grid Electricity Distribution plc.  
Avonbank  
Feeder Road  
Bristol  
BS2 0TB  
[nationalgrid.co.uk](https://nationalgrid.co.uk)